# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Williamston**

**Cartref Nyrsio Williamston**
**Houghton**
**Aberdaugleddau**
**SA73 1NL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Nyrsio Williamston

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Williamston Nursing Home LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 07 Chwefror 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Williamston yn darparu gofal o safon dda i'r bobl. Caiff y tîm ei arwain gan reolwr profiadol ac ymrwymedig sydd wedi pennu'r gwerthoedd ar gyfer y gwasanaeth mewn perthynas â gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i deilwra at yr unigolyn. Caiff y rheolwr ei gefnogi gan dîm o staff sy'n cynnwys nyrsys a gweithwyr gofal, y mae llawer ohonynt wedi cael eu cyflogi gan y gwasanaeth ers amser hir. Mae'r staff yn ymfalchio yn y ffaith eu bod yn gweithio yn Williamston ac mae'r bobl a'u perthnasau o'r farn eu bod wedi gwneud y penderfyniad cywir wrth ddewis y gwasanaeth.

Mae rhai heriau mewn perthynas â recriwtio, a llwyddir i ymdopi â'r diffygion, cymaint â phosibl, drwy ofyn i'r staff presennol fod yn hyblyg a thrwy recriwtio staff gan ddefnyddio asiantaeth hefyd. Mae'r effaith andwyol fwyaf o ran prinder staff i'w gweld yn y gwasanaeth cadw tŷ.

Mae angen gwella rhai meysydd o'r gwasanaeth, ac mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau ar gyfer hyfforddi a goruchwylio'r staff; yr amgylchedd a gwirio cyfarpar a gwasanaethau.

Mae'r bobl yn gwbl fodlon ar y gofal a'r cymorth a gânt yn Williamston, ond mae angen bwrw ati â'r gwelliannau a gynlluniwyd i'r amgylchedd er mwyn sicrhau ei fod yn dychwelyd i'w gyflwr blaenorol. Nododd un perthynas yn yr arolwg ansawdd mai "*grandeur*" yr eiddo a oedd wedi ei ddenu i ddechrau. Mae rhai nodweddion deniadol a gwreiddiol i'w gweld yn y gwasanaeth o hyd, ac mae'r cartref wedi'i leoli ar ei diroedd helaeth ei hun, a gaiff eu defnyddio'n dda pan fydd y tywydd yn addas.

## Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godwyd ac yn cymryd y camau angenrheidiol. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu.

Mae cyfleoedd i'r bobl siarad â'r staff yn Gymraeg yn brin gan nad oes llawer o'r staff yn siarad Cymraeg. Nid oedd hyn yn peri problem sylweddol, gan fod y bobl hefyd yn gallu cyfathrebu yn Saesneg.

Mae'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r staff yn dda. Mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar ac yn hamddenol. Disgrifiodd un unigolyn y staff fel “*lovely”* ac roedd y perthnasau hefyd yn gadarnhaol am y staff. Dywedodd un perthynas, “*I can’t fault the care”,* a dywedodd un arall *“They (the staff) know X. They have been wonderful”.* Mae rhai o'r bobl yn mwynhau tynnu coes ac *“a bit of banter”* a dywedodd rhai *“it feels like a family”.* Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl a'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw fod angen gwneud gwaith o ran amgylchedd y cartref, ond gwnaethant nodi fod y gofal y mae'r bobl yn ei gael yn gwneud iawn am y diffygion yn y décor a'r amgylchedd cyffredinol.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r gweithwyr gofal yn cynnal preifatrwydd ac urddas y bobl pan fyddant yn eu helpu gyda'u gofal personol. Nid ydynt yn rhuthro wrth roi gofal a chymorth, ac mae'r staff yn dweud eu bod yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm. Gall y bobl wneud dewisiadau am agweddau ar eu gofal, gan gynnwys pryd i fynd i'r gwely yn ogystal â dewisiadau ynghylch eu gofal personol. Bydd y darparwr yn atgoffa'r bobl am yr hawl i ddewis er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol ohoni ac yn ei deall cymaint â phosibl.

Caiff llesiant y bobl ei wella ymhellach pan gaiff y gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i'r dillad gwely a'r llenni a deunyddiau yn ogystal â'r décor a gwaith cynnal a chadw cyffredinol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cofnodion gofal yn fanwl ac mae gan rai o'r bobl ddogfen “This is Me” ddefnyddiol, sy'n nodi beth a phwy sy'n bwysig i'r unigolyn. Mae rhai o'r teuluoedd wedi darparu gwybodaeth ysgrifenedig am yr unigolion. Mae'r gweithwyr gofal yn dangos gwybodaeth dda iawn am y bobl, gan gynnwys beth a phwy sy'n bwysig iddynt, ond byddai'n ddefnyddiol cael cofnod cynhwysfawr o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen “This is Me” er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer yr unigolion ac i sicrhau bod cynlluniau yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
Ceir cynlluniau gofal ac asesiadau risg ar gyfer amrywiaeth o feysydd gan gynnwys iechyd y geg, y risg o gwympo, gofal personol a chydberthnasau.

Ceir rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd maeth da. Cafodd prif gogydd ei benodi'n ddiweddar sy'n awyddus i gynyddu'r prydau cartref a ddarperir ac i leihau unrhyw ddibyniaeth ar fwyd wedi'i brosesu. Mae rhai o'r unigolion sydd wedi cael eu cyflogi ers cryn dipyn o amser gan y gwasanaeth ac y mae ganddynt ddiddordeb mewn maeth a choginio wedi cael eu hyfforddi i weithio yn y gegin, ac maent yn fwy na pharod i wneud hynny'n llawn brwdfrydedd. Darperir ar gyfer deietau arbennig ac ar gyfer digwyddiadau arbennig. Mae'r staff yn fodlon ar ansawdd y cynhwysion ac yn ymfalchïo yn y ffordd y caiff y prydau eu cyflwyno. Mae'r prydau yn ymddangos yn flasus ac mae eu maint yn briodol. Mae bwyd ar gael y tu allan i amseroedd prydau.

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu. Mae nyrs gofrestredig ar ddyletswydd bob amser ac yn rhoi cyngor a chymorth i'r gweithwyr gofal. Mae'r nyrs yn gyfrifol am roi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn dweud bod y nyrsys yn barod i helpu ac yn ymatebol. Canmolodd un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref y tîm a dywedodd ei fod yn hyderus y byddai'r staff yn gweithredu'n unol ag unrhyw gyngor y byddai'n ei roi. Mae rhai o'r bobl yn cael gofal yn eu gwelyau a chaiff eu hanghenion ail-leoli eu diwallu gan y gweithwyr gofal sy'n gallu adnabod unrhyw arwyddion o friwiau pwyso ar groen y bobl. Mae cyfarpar symud a chodi a chario lleddfu pwysedd ar gael.
Gall y bobl weld optegydd a phodiatrydd, naill ai yn y gwasanaeth neu yn yr ardal leol. Mae'r bobl sy'n cael gofal yn eu gwelyau yn ymddangos yn gyfforddus, ond mae angen dillad gwely newydd er mwyn rhoi mwy o gysur iddynt.

Mae'r bobl yn cael rhai cyfleoedd i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, neu y maent yn eu mwynhau. Caiff gweithiwr gweithgareddau ei gyflogi'n rhan amser ac rydym wedi gofyn i'r darparwr ystyried cynyddu oriau'r gweithiwr hwnnw. Mae'r gweithiwr yn treulio amser gyda'r bobl yn gwneud gweithgareddau grŵp, gan gynnwys cerddoriaeth a symud a chelf a chrefft. Mae hefyd yn treulio amser gyda'r bobl yn unigol yn eu hystafelloedd. Mae'r bobl yn mwynhau'r ymwelwyr sy'n dod i'r gwasanaeth, gan gynnwys cerddorion a chantorion.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol. Mae'r eiddo yn fawr ac mae rhai nodweddion gwreiddiol a deniadol i'w gweld. Fodd bynnag, ymddengys nad oes digon o waith cynnal a chadw ac atgyweirio cyffredinol yn cael ei wneud. Mae angen ailaddurno y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad. Mae ardaloedd o leithder ar y waliau, ac mae difrod i'w weld ar y gwaith paent.
Yn ôl pob golwg, mae un o'r draeniau y tu allan wedi'i flocio ac mae'r llawr wedi gostwng yn un o'r ystafelloedd cawod, sy'n golygu bod yn rhaid i'r gweithwyr gofal glirio pwll mawr o ddŵr bob tro y bydd unigolyn yn cael cawod.

Nid oes unrhyw arogleuon drwg, ond mae angen ymgymryd â gwaith tynnu llwch ar lefelau uchel er mwyn cael gwared ar weoedd pryfed cop. Mae'r gwasanaeth yn ceisio recriwtio staff cadw tŷ i'r swyddi gwag, ac mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â rhai o'r dyletswyddau cadw tŷ ar hyn o bryd. Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, nid oedd unrhyw staff cadw tŷ yn gweithio.

Mae'r perthnasau a'r gweithwyr gofal yn nodi bod angen gwneud gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol ac yn disgrifio'r gwasanaeth fel *"drab"* ac *"in need of a face lift".* Soniodd ymwelwyr am y tyllau yn y dramwyfa sy'n arwain at y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal o'r farn bod angen gwneud gwelliannau er mwyn gwella eu hamgylchedd gwaith.

Mae'r bobl wedi personoli eu hystafelloedd ag eitemau o ddodrefn, lluniau a llenni a deunyddiau, ond yn gyffredinol, ceir diffyg sylw at fanylder ym mhob rhan o'r adeilad, gan gynnwys rhai llenni sy'n rhy denau i atal golau'r haul a llenni eraill nad ydynt wedi'u hongian yn gywir neu nad ydynt o faint addas.

Ceir lifft a lifft grisiau er mwyn i'r bobl symud rhwng gwahanol rannau'r gwasanaeth ac mae dwy brif lolfa ac ystafell fwyta. Mae ardal fawr ar waelod y prif risiau y gellid ei defnyddio fel lleoliad hyfryd i'r bobl dreulio eu hamser.

Mae ffenestri mawr yn y lolfeydd, sy'n golygu bod yr ystafelloedd yn olau ac wedi'u hawyru'n dda, ond mae angen rhywfaint o waith adnewyddu a dodrefn newydd er mwyn gwneud y gorau o'r ardaloedd.

Cafodd y gegin sgôr o bedwar gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef 'da'. Mae angen rhywfaint o waith cynnal a chadw cyffredinol yn ardal y gegin. Mae gan aelodau'r tîm arlwyo y cyfarpar sydd ei angen arnynt, ond nodwyd ganddynt fod angen cynnal gwaith glanhau trylwyr a bod angen dadmer y rhewgelloedd.

Mae'r darparwr newydd yn cydnabod y diffygion yn yr amgylchedd ac mae'n bwriadu cyflogi gweithwyr ychwanegol er mwyn gwneud y gwelliannau sydd eu hangen. Dywedodd y bydd

y gwelliannau hyn yn cael eu gwneud yn ystod y deufis nesaf. Mae hwn yn faes i'w wella, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae rhai trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro ansawdd. Yn ddiweddar, mae darparwr newydd wedi prynu'r gwasanaeth, ac mae'r unigolyn cyfrifol arfaethedig wrthi'n gwneud cais am y rôl hon. Maent i'w gweld yn y gwasanaeth ac mae'r staff yn cwrdd â nhw'n rheolaidd. Roedd yr unigolyn cyfrifol blaenorol ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r Rheoliadau ac mae adroddiadau cynhwysfawr ar gael yn dilyn yr ymweliadau hyn. Mae adroddiad Sicrhau Ansawdd ar gael ond byddai gwybodaeth ychwanegol yn gwneud y ddogfen hon yn ddogfen fwy cadarn.

Caiff amrywiaeth o archwiliadau eu cwblhau, gan gynnwys archwiliadau o'r cynlluniau gofal, cyllid a'r gwasanaeth cadw tŷ. Roedd yr archwiliadau hyn yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth ar yr adeg y cawsant eu cwblhau. Mae cofnodion ar gael i ddangos pan gaiff gwiriadau eu cynnal ar wasanaethau a chyfarpar. Roedd rhai o'r gwiriadau hyn, gan gynnwys tymheredd y dŵr; y goleuadau argyfwng a'r lifft grisiau wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol, ond mae rhai heb eu cynnal o hyd, gan gynnwys amrywiaeth o wiriadau diogelwch tân. Mae gan y darparwr newydd gynllun i sicrhau y caiff amser ei neilltuo er mwyn i'r gweithiwr cynnal a chadw allu cynnal y gwiriadau diogelwch. Mae hwn yn faes i'w wella, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

Caiff gweithwyr eu penodi'n unol â phroses recriwtio ddiogel. Mae'r ffeiliau yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Maent yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys geirdaon, hanes cyflogaeth a gwiriadau diogelwch. Mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod y gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio, ond nid yw'r broses hon bob amser yn cael ei chynnal yn unol â'r rheoliadau. Mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn ac yn y gorffennol, dirprwyodd rhywfaint o'r dyletswyddau goruchwylio i uwch-aelodau eraill o staff. Mae'r staff yn gallu trafod syniadau neu bryderon ac yn teimlo eu bod yn cael adborth ar eu gwaith i'w helpu i ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r gweithwyr gofal yn awyddus i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r bobl, a dywedodd un, "*I have the best job in the world".*

Ceir rhywfaint o bwyslais ar hyfforddiant, a chynigir hyfforddiant i'r gweithwyr gofal ar amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys dementia; iechyd a diogelwch; diogelu a rheoli heintiau. Mae rhai bylchau yn y matrics hyfforddiant sy'n dangos nad yw'r holl hyfforddiant yn gyfredol. Mae hwn yn faes i'w wella, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Y tu allan, mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ar rannau o'r eiddo. Mae'r gwaith paent wedi colli ei liw. Mae draen wedi'i flocio sy'n golygu bod y dŵr yn llifo dros y concrit. Mae tyllau mawr yn y dramwyfa. Mae angen atgyweirio a glanhau rhai o'r ffenestri. Y tu fewn, nid yw un o'r draeniau yn un o'r cawodydd yn gweithio'n iawn, sy'n golygu bod dŵr yn cronni yng ngwaelod y gawod a bod yn rhaid i'r staff ei ysgubo â llaw i mewn i'r draen. Mae marciau gwael ar y waliau a'r gwaith pren. Mae rhai o'r gosodiadau a'r ffitiadau naill ai ar goll neu mae angen rhai newydd. Mae olion traul ar y dillad gwely a'r dodrefn. Mae rhaglen wedi'i chynllunio o waith cynnal a chadw wrthi'n cael ei llunio ar hyn o bryd ac mae'r darparwr yn cydnabod ei gyfrifoldeb i atgyweirio'r adeilad a'i adfer i'r cyflwr gorau posibl. | Newydd |
| 6 | Ni chaiff sesiynau goruchwylio eu cynnal yn unol â'r rheoliadau. Mae bylchau yn y matrics hyfforddiant sydd naill ai'n dangos nad yw rhai o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant, neu nad yw eu hyfforddiant yn gyfredol. Mae bylchau yn y cofnodion ar gyfer gwiriadau diogelwch, a dywedodd y gweithiwr cynnal a chadw nad yw wedi cwblhau'r holl wiriadau diweddaraf gan ei fod wedi bod yn gweithio yn y gegin. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/03/2024